

<https://www.dysguiechydagofal.cymru/>

8040-02 Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Adroddiad Arholwyr

Fersiwn 1.0

Addaswyd ddiwethaf 28-Ebrill-2022

Hanes adolygu'r ddogfen

Fersiwn	Wedi'i newid gan	Crynodeb o'r newid	Dyddiad cymeradwyo
1.0	Dogfen wedi'i chreu	[Disgrifiad]	28.04.2022

Sefydliad City and Guilds Llundain

Ymgorfforwyd gan Siarter Frenhinol, Sefydlwyd yn 1878

Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 312832 ac yn yr Alban SC039576.

Mae WJEC CBAC Cyf yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac mae'n elusen gofrestredig (rhif 1073332)

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Aseidiadau Allanol	3
2.1. Marciau pasio	3
2.2. Cyfraddau pasio.....	3
2.3. Perfformiad unedau ar draws y gwahanol lwybrau	4
3. Aseidiadau Mewnol	7
3.1. Meysydd ymarfer da	7
3.2. Meysydd i'w gwella	7
3.3. Pwyntiau i ganolfannau eu hystyried	8

1. Cyflwyniad

Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio fel adnodd adborth i ganolfannau er mwyn gwella'r addysgu a'r paratoi ar gyfer yr 8040-02 Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Cynghorir iddynt gyfeirio at y ddogfen hon wrth baratoi i addysgu ac yna eto pan fydd ymgeiswyr yn paratoi i sefyll yr asesiad.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau cyffredinol ar y marciau pasio a sut mae ymgeiswyr yn perfformio ym mhob un o'r profion. Mae'n tynnu sylw at themâu cyffredin mewn perthynas â'r agweddau technegol a gafodd eu harchwilio yn yr asesiadau ***rhwng 1 Medi 2021 a 31 Ionawr 2022***.

Ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, dyma feintiau'r carfannau:

Llwybr	Nifer yr ymgeiswyr
Oedolion	841
Plant a Phobl Ifanc	157
Cyfun	13

2. Asesiadau Allanol

2.1. Marciau pasio

Mae marciau pasio yn cael eu pennu ar y safon perfformiad sylfaenol sy'n ofynnol er mwyn i'r ymgeisydd lwyddo. Defnyddir dull 'angoff' i sicrhau bod y marciau pasio sy'n cael eu pennu ar gyfer profion aml-ddewis mor ddiogel â phosibl. Yn bennaf, mae'n defnyddio barn Arbenigwyr Pwnc i ragweld gallu ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys iawn i ateb pob cwestiwn yn gywir.

Mae gan bob fersiwn o'r asesiad ei farc pasio ei hun ac mae'n adlewyrchiad cywir o ystod o farn arbenigol.

Llwybr	Ystod y marciau pasio	Allan o (cyfanswm y marciau):
Oedolion	31-32	45
Plant a Phobl Ifanc	33	45
Cyfun	45	65

Cynhelir proses adolygu data reolaidd i sicrhau tegwch i bob ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys:

- adolygu ystadegau cymharol sy'n dangos sut mae pob asesiad yn perfformio ac
- adolygu eitemau prawf unigol nad ydynt yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Mae'r adolygiad o ddata yn ystyried effaith materion sy'n ymwneud â pherfformiad eitemau neu fân wahaniaethau rhwng fersiynau o'r asesiad fel y gellir ystyried y rhain i sicrhau nad yw ymgeiswyr dan anfantais.


2.2. Cyfraddau pasio

Mae'r gyfradd pasio'n golygu sawl gwaith y mae asesiad penodol wedi cael ei basio, fel canran o nifer o weithiau y rhoddwyd cynnig ar yr asesiad hwnnw. Mae ymgeiswyr sy'n ail-sefyll asesiadau yn effeithio ar y ffigurau hyn a dylai canolfannau gadw hyn mewn cof wrth eu dehongli.

Efallai na fydd y gyfradd pasio a geir wrth gyflwyno prawf am y tro cyntaf wir yn dangos pa mor anodd yw'r prawf oherwydd efallai na fydd nifer yr ymgeisiau sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad yn ddigon mawr ar gyfer dilysrwydd gwirioneddol ystadegau. Am y rheswm

hwn, bydd unrhyw gyfradd pasio yn 'ciplun' o berfformiad yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar adeg cyfrifo.

Mae'r cyfraddau pasio isod yn gyfraddau cronol ar draws pob fersiwn ac iaith ar gyfer y cyfnod adrodd.



Sylwer: Mae maint y garfan ar gyfer y llwybr Cyfun yn fach iawn o'i gymharu â'r llwybr Oedolion a'r llwybr Plant a Phobl Ifanc

2.3. Perfformiad unedau ar draws y gwahanol lwybrau

Mae'r canlynol yn dangos gwerth cyfleuster cronol cyfartalog pob uned ar draws pob fersiwn. Gwerth y cyfleuster yw canran yr ymgeiswyr sy'n ateb y cwestiynau'n gywir.

2.3.1. Llwybr oedolion

Teitl yr Uned	Nifer y cwestiynau yn y prawf	Gwerth cyfleuster cronol cyfartalog ar draws pob fersiwn
001 Egwyddorion a gwerthoedd (Oedolion)	10	81
003 Iechyd a llesiant (Oedolion)	10	83
005 Ymarfer proffesiynol	8	73
006 Diogelu	8	85
007 Iechyd a Diogelwch	9	85

2.3.2. Llwybr Plant a Phobl Ifanc

Teitl yr Uned	Nifer y cwestiynau yn y prawf	Gwerth cyfleuster cronol cyfartalog ar draws pob fersiwn
002 Egwyddorion a gwerthoedd (Plant a Phobl Ifanc)	9	84
004 Iechyd a llesiant (Plant a Phobl Ifanc)	11	85
005 Ymarfer proffesiynol	8	91
006 Diogelu	8	84
007 Iechyd a Diogelwch	9	90

2.3.3. Llwybr cyfun

Teitl yr Uned	Nifer y cwestiynau yn y prawf	Gwerth cyfleuster cronol cyfartalog ar draws pob fersiwn
001 Egwyddorion a gwerthoedd (Oedolion)	10	70
002 Egwyddorion a gwerthoedd (Plant a Phobl Ifanc)	9	66
003 Iechyd a llesiant (Oedolion)	10	88
004 Iechyd a llesiant (Plant a Phobl Ifanc)	11	64
005 Ymarfer proffesiynol	8	59

006 Diogelu	8	71
007 Iechyd a Diogelwch	9	73

2.3.4. Meysydd ffocws

Mae'r meysydd canlyniadau canlynol wedi cael eu nodi fel rhai â chwestiynau mwy heriol na meysydd eraill

- 5.1 Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- 5.2 Gwybod sut mae datblygu a chynnal partneriaeth effeithiol drwy weithio gydag eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

3. Asesiadau Mewnol

Mae'r canlynol yn ganlyniadau o Gymedroli Allanol/Samplo Sicrhau Ansawdd Allanol y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd

3.1. Meysydd ymarfer da

- Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol wedi ymgymryd â gweithgareddau sicrhau ansawdd i samlo'r broses asesu ar gyfer y cymhwyster hwn ar draws ystod o ganolfannau sydd wedi cynnwys gwahanol fathau o ddarparwyr.
- Mae'r canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan, ac er bod hwn yn gymhwyster newydd a gan gydnabod cyfyngiadau eithriadol pandemig Covid, mae canolfannau wedi ymdopi'n dda at ei gilydd, ac mae nifer sylweddol o ddysgwyr wedi llwyddo.
- Mae llawer o ddysgwyr yn parhau i dderbyn gwybodaeth gynhwysfawr ar draws yr unedau, mewn cynlluniau dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer yr asesiadau cyfunol ac mae canolfannau wedi defnyddio astudiaethau achos ymarfer i sicrhau eu bod yn barod i gael eu hasesu.
- Dangosodd cyfweiliadau â dysgwyr a gynhaliwyd gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn ystod gweithgareddau samlo fod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cwrs ac yn teimlo eu bod wedi cael lefelau cyson o gefnogaeth gan staff y ganolfan. Roedd rhai dysgwyr wedi ymdopi'n well nag eraill pan darfwyd ar eu mynediad at ddysgu wyneb yn wyneb.

3.2. Meysydd i'w gwella

Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol wedi adrodd bod trafodaethau yn ystod eu gweithgareddau samlo wedi codi'r pwyntiau canlynol:

- Dylai tiwtoriaid/aseswyr gofio bod y Craidd yn cynnwys proses asesu gyfunol. Mae hyn yn golygu na ddylai aseswyr fod yn cynnig adborth interim i ddysgwyr. Mae'r adborth i'r dysgwr gan yr asesydd mewnol yn un lefel uchel yn unig ac ni ddylai arwain y dysgwr mewn unrhyw ffordd. Gall adborth sy'n arwain y dysgwr gael ei ystyried yn gamymarfer.
- Yn naturiol, dylai prosesau sicrhau ansawdd mewnol gynnwys monitro a sicrhau ansawdd y meysydd cyflwyno ac asesu canlynol: recriwtio, cynefino, addysgu a dysgu, yn barod ar gyfer strategaethau asesu, rheoli aseiniadau o'r cam rhyddhau i'r cam adborth a phrosesau ailsefyll.
- Roedd manylion y cyfiawnhad dros benderfyniadau asesu yn faes i'w ddatblygu ar gyfer rhai canolfannau. Dylai aseswyr ddarparu adborth priodol i gyfiawnhau'r marciau a ddyrannwyd/nas ddyrannwyd.
- Cafwyd rhai awgrymiadau i wella'r broses safoni marciau a'r broses ddyfarnu. Un maes cyffredin i fynd i'r afael ag ef yw safoni'r broses o farcio'r cwestiwn lle ceir marc band.
- Gallai rhai canolfannau ddarparu gwell tystiolaeth o safoni i swyddogion sicrhau ansawdd allanol fel nodiadau cyfarfodydd a chynlluniau gweithredu.
- Dylai staff canolfannau fod yn glir ynghylch y mesurau lliniaru presennol ar gyfer y cymhwyster hwn a'r dyddiad gorffen. Mae modd dod o hyd i hyn ar y wefan.

3.3. Pwyntiau i ganolfannau eu hystyried

- Awgrymir bod staff y ganolfan yn cyfeirio at ddogfennau allweddol y cymhwyster Craidd a Chanllawiau'r Ganolfan Asesu a Sicrhau Ansawdd sydd ar gael ar y wefan, (mae canllawiau penodol ar arferion gorau ar gael yn adran 1.4).
- Cynghorir canolfannau i ddatblygu eu systemau eu hunain i ddadansoddi cyfraddau cyflawni a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, yn enwedig o ran sicrhau bod dysgwyr yn barod i gael eu hasesu.
- Dywedodd staff y canolfannau a oedd yn bresennol yn nigwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio C&G wrth y Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol eu bod wedi defnyddio'r wybodaeth i addasu a gwella eu hymarfer wrth gyflwyno a sicrhau ansawdd asesiadau.